

2025 Rhif (LIC25-55)

2025 No. (WG25-55)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A4059
(Y Rhigos i Hirwaun, Rhondda
Cynon Taf) (Gwaharddiadau a
Chyfyngiadau Traffig Dros Dro)
2025

The A4059 Trunk Road (Y Rhigos
to Hirwaun, Rhondda Cynon Taf)
(Temporary Traffic Prohibitions
and Restrictions) Order 2025

Gwnaed 25 Medi 2025
Yn dod i rym 1 Hydref 2025

Made 25 September 2025
Coming into force 1 October 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4059, wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4059 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4059 (Y Rhigos i Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2025.

1. The title of this Order is the A4059 Trunk Road (Y Rhigos to Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2025 and this Order comes into force on 1 October 2025.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

2. In this Order—
"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:
(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 1 Hydref 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A4059 y Rhigos i Hirwaun;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ac eithrio cerbyd esempt, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr, 40 milltir yr awr neu 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) or in connection with the works giving rise to this Order;

- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4059 Y Rhigos to Hirwaun trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 06:00 hours on 1 October 2025 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule 1 to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule 1 to this Order.

6. No person may, during the works period, other than an exempted vehicle, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour, 40 miles per hour or 30 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefinol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Atal dros dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

Cymhwyso

8.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

9.(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

25 Medi 2025



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Suspension

7. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in article 6 are in operation.

Application

8.—(1) The restrictions and prohibitions in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

9.(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Duration of this Order

10. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

25 September 2025



Nicci Hunter
Business Team Leader
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro a Llwybrau Eraill

1. Y darn o gefnffordd yr A4059 tua'r dwyrain sy'n ymestyn rhwng Cylchfan y Rhigos a Chylchfan Hirwaun, gan ddechrau o'i chyffordd â'r gerbyttffordd gylchredol hyd at ei chyffordd â'r brif gerbyttffordd tua'r dwyrain.

2. Y darn o gefnffordd yr A4059 tua'r gorllewin sy'n ymestyn rhwng Cylchfan Hirwaun a Chylchfan y Rhigos, gan ddechrau o'i chyffordd â'r gerbyttffordd gylchredol hyd at ei chyffordd â'r brif gerbyttffordd tua'r dwyrain.

3. Dylai'r traffig yr effeithir arno gan gau'r A4059 tua'r dwyrain fynd tua'r gogledd ar hyd yr A4059 i Gyffordd Rhigos Road, troi i Rhigos Road, mynd tua'r dwyrain ar hyd Brecon Road i Gylchfan

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians and Alternative routes

1. The length of the eastbound A4059 trunk road that extends between Rhigos Roundabout and Hirwaun Roundabout, starting from its junction with the circulatory carriageway to its junction with the main eastbound carriageway.

2. The length of the westbound A4059 trunk road that extends between Hirwaun Roundabout and Rhigos Roundabout, starting from its junction with the circulatory carriageway to its junction with the main eastbound carriageway.

3. Traffic affected by the closure of the A4059 eastbound should proceed north along the A4059 to Rhigos Road Junction, turn onto Rhigos Road, proceed easterly along Brecon Road to the Hirwaun

Hirwaun, ac ailymuno â'r gefnffordd. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig yr effeithir arno gan y cau tua'r gorllewin.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder Dros Dro

1. Y darn o gefnffordd yr A4059 tua'r dwyrain sy'n ymestyn rhwng Cylchfan y Rhigos a Chylchfan Hirwaun, gan ddechrau o'i chyffordd â'r gerbyttffordd gylchredol hyd at ei chyffordd â'r brif gerbyttffordd tua'r dwyrain.

2. Y darn o gefnffordd yr A4059 tua'r gorllewin sy'n ymestyn rhwng Cylchfan Hirwaun a Chylchfan y Rhigos, gan ddechrau o'i chyffordd â'r gerbyttffordd gylchredol hyd at ei chyffordd â'r brif gerbyttffordd tua'r dwyrain.

Roundabout, and rejoin the trunk road. Vice versa for traffic affected by the westbound closure.

SCHEDULE 2

Temporary Speed Limit

1. The length of the eastbound A4059 trunk road that extends between Rhigos Roundabout and Hirwaun Roundabout, starting from its junction with the circulatory carriageway to its junction with the main eastbound carriageway.

2. The length of the westbound A4059 trunk road that extends between Hirwaun Roundabout and Rhigos Roundabout, starting from its junction with the circulatory carriageway to its junction with the main eastbound carriageway.